

## Gwrthod cael eu trechu

*Y mae'r Hybarch Athro John Holdsworth yn adrodd am y sefyllfa dorcalonnus yn Beirut*



*Beirut, Aout 4 2020*

Y mae gen i ffrind sy'n ddarlithydd yn yr Ysgol Ddiwinyddiaeth Orllewinol Agos yn Beirut (NEST), ac hefyd yn offeiriad yn un o'r prif eglwysi Protestanaidd yng nghanol y ddinas, wedi 'i lleoli mwy neu lai hanner ffordd rhwng Sgwâr y Merthyron a oedd yn ardal neb rhwng dwyrain a gorllewin Beirut yn ystod y rhyfel diwethaf, a'r prif adeiladau llywodraethol. Fe glywais hi'n siarad ym mis Chwefror am y sefyllfa bryd hynny. Yr oedd yr ardal wedi dod yn un o brotest emosiynol. Yr oedd mynychwyr yr eglwysi yn cynnal gwasanaethau i gefndir o sŵn anferthol o gwyno uchel eu cloch yn erbyn pob agwedd o ddarpariaeth y wlad: trydan, dŵr; cartrefi, gofal iechyd, ac yn bennaf cwyno am lygredigaeth. Teimlai'r sefyllfa yn anobeithiol. Yn nawr, o ganyliad i'r ffrwydriad, y mae'n rhoi prawf ar eu penderfyniad i oroesi.

Y mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr â Beirut yn syrthio mewn cariad ag e. Mae'n gymysgedd o soffistigredigrwydd Ffrengig, afiaith ieuencid, bywiogrwydd celfyddydol cyfoethog a bwyd gwych, yn erbyn cefndir prydfferth o fynyddoedd. Y mae'r bobl yn wych ond dod i delerau â phethau. Y mae Libanus, fel gwlad fach yng nghanol cymdogion nerthol a chystadleuol, yn dioddef yr un ffawd â'r Yemen. Mae'n ardal lle mae rhyfeloedd ar ran eraill yn cael eu hymladd, ac fe welwyd digon ohonynt yn y deg mlynedd ar hugain diwethaf. Y mae tua traean o'r boblogaeth yn foaduriaid o Syria. Dyma ble wnaeth y PLO(ydych chi'n eu cofio nhw?) eu safiad olaf, ac y mae gwersylloedd ffoaduriaid Sabra a Shatila yn dal yno fel cofebau i drasiedi eu presenoldeb. Y mae Hezbollah yn cynrychioli Iran ac mewn effaith yn dal Libanus yn wystl. Mae eu lluoedd o fewn y wlad yn fwy mewn rhif na'r rhai cenedlaethol. Y mae Libanus yn

unigryw yn yr ardal gyda 40% o boblogeth Gristnogol, ond y mae rhannu pŵer wedi arwain at lygredigaeth a delio pŵer.



*Prif fynedfa*



*Siop Goffi*

Er yr anawsterau, parhaodd bywyd bob dydd yn arwrol hyd nawr. Yng nghanol hynny, ac yn rhannol o'i herwydd, ennillodd NEST le unigryw fel coleg eciwmenaidd gyda record academaidd ardderchog, a thraddodiad gwych. Bu llawer o ddifrod i'w adeilad, ond unwaith eto, maent yn gwrthod cael eu trechu gan ddigwyddiadau na allant eu rheoli. Y mae ebost diweddaraf fy ffrind yn dweud y cyfan ' Yr ydym yn teimlo'n hollol analluog yn wyneb yr holl angen. Nid ydym wedi bod ond yn ymdopi gyda'r creisis ariannol a'r problemau a achoswyd gan y cloi coronofeirws ar y wlad. Collodd cymaint eu cartrefi, eu modd o fyw a'u ceraint ac y mae ein gallu i helpu wedi gostwng yn fawr. Yr ydym yn dal i weddio a gweithio er mwyn heddwch.

[Gellir cefnogi gwaith NEST yn ariannol gan ddefnyddio'r trwy wefan NEST](#)